| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 13eg Chwefror 2025 |
| **TEITL** | Polisi Iaith Addysg – y drefn ymgysylltu |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Derbyn diweddariad am y broses ymgysylltu yng nghyd-destun y Polisi Iaith Addysg |
| **AWDUR** | Rhys Meredydd Glyn, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dewi Jones |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

**1.1** Cyflwynir yr adroddiad yma mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i dderbyn adroddiad am y drefn ymgysylltu yng nghyd-destun y Polisi Iaith Addysg newydd.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

**2.1** Bwriad yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth am y drefn ymgysylltu yng nghyd-destun y Polisi Iaith Addysg newydd, ac yna adrodd ar ganfyddiadau'r ymgysylltu.

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

**3.1** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r drefn ymgysylltu parthed Polisi Iaith Addysg.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

**4.1** Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o arloesi ym maes Addysg Gymraeg a dwyieithog ac mae'r arloesi hwn wedi sicrhau fod pobl ifanc Gwynedd o fewn ysgolion yr awdurdod lleol wedi derbyn cyfleoedd eang i ddod yn rhugl ddwyieithog.

**4.2** Yng Ngwynedd bellach mae'r nifer mwyaf o siaradwyr y Gymraeg mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ac yma hefyd mae'r ganran uchaf o bobl ifanc yn cael addysg yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Ond ar yr un pryd, mae'r newidiadau ieithyddol sy'n digwydd yn y sir, yn ogystal â newidiadau o ran dylanwad Llywodraeth Cymru ar addysg yng Nghymru, yn ei gwneud hi'n amserol i ystyried adolygu polisi iaith addysg Cyngor Gwynedd, a chynnal trafodaeth ynghylch pa elfennau o'r polisi presennol sy'n gweithio'n dda, a ble mae angen gwneud unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau.

**4.3** Er mwyn cynnal y drafodaeth hon ar bolisi iaith addysg Gwynedd cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ledled yr awdurdod gyda rhychwant eang o ran-ddeiliaid i drafod sut y

gellid gwella a chryfhau'r polisi presennol, a hynny yng nghyd-destun cyfrifiad 2021 a disgwyliadau ieithyddol ac addysgol presennol Llywodraeth Cymru.

**4.4** Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ar draws y tri rhanbarth dros gyfnod o ddau fis Hydref a Rhagfyr 2024. Treuliwyd amser hefo cynrychiolaeth o benaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac ysgolion gydol oes:

**<u>Ysgolion Cynradd:</u>**

**Arfon:** Ysgol Ein Harglwyddes, Ysgol Hirael, Ysgol Llandygai, Ysgol Llanllechid, Ysgol Rhosgadfan.

**Dwyfor:** Ysgol y Gorlan, Ysgol Treferthyr, Ysgol Llanbedrog

**Meirionnydd:** Ysgol Cefn Coch, Ysgol, Talsarnau, Ysgol y Traeth

**Ysgolion Arbennig:** Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

**<u>Ysgolion Uwchradd:</u>**

**Arfon:** Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Brynrefail, Ysgol Tryfan ac Ysgol Friars, Ysgol Dyffryn Nantlle

**Dwyfor:** Ysgol Botwnnog, Ysgol Eifionydd, Ysgol Glan y Môr

**Meirionnydd:** Ysgol Y Moelwyn, Ysgol Ardudwy, Ysgol Tywyn

**Ysgolion Gydol Oes:** Ysgol Bro Idris, Ysgol Godre'r Berwyn.

**4.5** Yn ogystal, croesawyd disgyblion i'r cyfarfodydd ymgysylltu i drafod y polisi iaith. Paratowyd deunyddiau cefndirol addas a phwrpasol ar gyfer ystod oed gwahanol ddysgwyr. Sicrhawyd hefyd fod llais croes doriad o blant a phobl ifanc Gwynedd yn cael gwrandawid yn y cyfarfodydd. Dewiswyd plant o ysgolion yng nghadarnleoedd y Gymraeg yng Ngwynedd, ynghyd â'r ardaloedd fwy seisnigedig gan gynnwys ysgol yn y categori trosiannol yng nghyd-destun darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yr ysgol.

**Dysgwyr Ysgolion Cynradd:** Ysgol Cymerau, Ysgol Bro Hedd Wyn ac Ysgol Cae Top

**Dysgwyr Ysgolion Uwchradd:** Ysgol Botwnnog, Ysgol y Moelwyn, Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Tywyn

**Dysgwyr Ysgolion Arbennig:** Ysgol Hafod Lon.

**4.6** Hefyd cynhaliwyd cyfarfod ymgysylltu ar gyfer cynrychiolwyr canlynol:

**<u>Mudiadau Iaith:</u>**
Cylch yr Iaith
Cymdeithas yr Iaith
Dyfodol yr Iaith
RHAG-Cymdeithas Rhieni ac Athrawon dros Addysg Gymraeg

**4.7** Croesawyd hefyd gynrychiolwyr o **Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi Gwynedd**: Cynghorwyr: Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Beth Lawton, Richard Glyn Roberts a Rhys Tudur

**4.8** Hefyd croesawyd y Cynghorwyr canlynol i gynrychioli'r **Pwyllgor Iaith**: Cynghorwyr: Menna Baines, Meryl Roberts, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans ac Olaf Cai Larsen.

**4.9** Trefnwyd cyfarfod hefyd hefo cynrychiolwyr o blith **Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd** ynghyd â chyfarfod hefo swyddogion y Comisiynydd Iaith.

**4.10** Darparwyd dogfennau i osod cyd-destun i'r trafodaethau a dosbarthwyd y dogfennau rheini ymlaen llaw i'r holl gynrychiolwyr (gweler Atodiadau):

1. Bil y Gymraeg ac Addysg
2. Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd 2021
3. Erthygl -Golwg 360 'Dylai Llywodraeth ganolbwyntio mwy ar agweddau at iaith yn ôl ymchwil Prifysgol Bangor'- Meilyr Jones

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**5.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.

**5.2** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

**5.3** O ran **cydweithio a chynnwys** eraill, rydym eisoes wedi cynnal sesiynau ymgysylltu rhwng Hydref a Rhagfyr 2024, gweler 4,4 i 4.9 am ragor o wybodaeth,

**5.4** Mae cynnal y broses ymgysylltu yn cydnabod yr angen i ddiwygio'r polisi iaith presennol yng ngoleuni datblygiadau diweddar gan gynnwys ystadegau cyfrifiad 2021. Mae gweithredu rŵan yn gyfle i ymateb i'r sefyllfa a cheisio **atal** llithriad pellach yn niferoedd dysgwyr 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg.

**5.5** Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn datblygu'n ddinasyddion hyderus dwyieithog yn gwella cyfleoedd iddynt yn addysgol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yn yr **hirdymor** ac yn cyfoethogi eu profiad o fyw a gweithio trwy'r Gymraeg yng Ngwynedd.

**5.6** Mae grymuso Polisi iaith Addysg y sir yn sylfaen gadarn i ddatblygu dinasyddion dwyieithog ac yn cydymffurfio hefo statws yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun Cyrff Cyhoeddus.

## 6. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

**6.1** Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn ymateb i’r gwaith ymgysylltu sy’n ymwneud â’r Polisi Iaith. Fodd bynnag, bydd disgwyl llunio Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cyngor fel rhan o lunio Polisi Iaith Addysg newydd. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i’r holl sylwadau a dderbynnir fel rhan o’r ymgysylltu, ac yn addasu’r Polisi Iaith Addysg a’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb fel sy’n briodol yn sgil y sylwadau a dderbynnir.

## 7. Camau Nesaf

**7.1** Yn dilyn y broses ymgysylltu mae swyddogion yr Adran Addysg yn cydweithio hefo Meirion Prys Jones i lunio drafft o bolisi iaith fydd yn ymgorffori uchelgais Gwynedd ynghyd â dylanwad holl sylwadau’r ymgysylltu.

**7.2** Bwriedir cyflwyno’r drafft ynghyd â strategaeth benodol i gefnogi gweithredu’r polisi ar 10fed Ebrill 2025 yn y Pwyllgor Craffu Addysg cyn mynd i Gabinet Cyngor Gwynedd.

**Atodiadau**

1. Bil y Gymraeg ac Addysg
2. Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd 2021
3. Erthygl -Golwg 360 ‘Dylai Llywodraeth ganolbwyntio mwy ar agweddau at iaith yn ôl ymchwil Prifysgol Bangor’- Meilyr Jones
4. Ymgysylltu Polisi Iaith Addysg – Dogfen Gefndirol